



Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn

SWYDDOGION

Cadeirydd:

E. WYN JAMES

Ysgrifennydd:

ANGHARAD JONES,

1 Rhês y Priordy,

Vinegar Hill, Caernarfon LL55 1TB

(Cartref: 0128677354 Gwaith: 01286679636)

Trysorydd:

GWYNDAF ROBERTS

Cae'r Hafod, Maes Caled,

Dolgellau LL40 1UF

(01341) 423959

Golygydd:

MEL WILLIAMS

Tanycastell, Llanuwchllyn,

Y Bala, Gwynedd, LL23 7TA

(01678) 540652

e-bost: tanycastell@yahoo.com

CYNNWYS

	Tud.
Golygyddol	2
Gwasg Ysgol Dolwyddelan (2)	3
Daniel Owen o dan bwysau	5
Rhyw Farwol Law	7
O Gamddwr i Gairo	9
Eglwys Hynafol Llangar	11
Cipolwg ar Arlunydd o Bontarddulais	12
Pigion Bruce	15
T. Solomon Griffiths, Utica	17
Y Llwydiaid a'r Puwiaid	19
Dewi Brefi	21
Adolygiadau	22
At y Golygydd	23

LLUN Y CLAWR

Llun o Eglwys hynafol Llangar – am yr hanes gweler tudalen 11.

@ Llun: Mel Williams

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a hysbysebion i'r golygydd
erbyn Medi 28

GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r Gymdeithas yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn Y Casglwr i Danysgrifwyr yn unig.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Miss Anne K. Till (01970) 872077

Golygyddol

Diwrnod Agored

Hyd yma, mae'r flwyddyn wedi bod yn hynod gyffrous. Ganol Ebrill cafwyd Diwrnod Agored llwyddiannus iawn yn Nhanybwlech gyda dros hanner cant yn dod i wrando a mwynhau pedwar darlithydd dawnus iawn yn mynd trwy'u pethau. Hoffwn ddiolch i'r pedwar am wneud y diwrnod yn un llwyddiannus tu hwnt.

Yn y Cyfarfod Blynyddol etholwyd Dafydd Lloyd Hughes yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas. Mae ef wedi bod yn gefn iddi ers y cychwyn cyntaf. Etholwyd Angharad Jones i olynu y Dr Maredudd ap Huw, sy'n dymuno rhoi'r gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd. Tra'n diolch i Maredudd am ei holl waith, edrychwn ymlaen at gydweithio ag Angharad. Etholwyd, hefyd, Rheinallt Llwyd yn Is-gadeirydd a Rhian Williams, Blaenau Ffestiniog, Helga Martin, Ysbyty Ifan, Buddug Medi, Y Bala, a Denis Roberts, Y Felinheli, ar y Pwyllgor. Llywyddwyd y cyfarfod gan yr Is-Lywydd yn absenoldeb y Cadeirydd E. Wyn James.

Diolch, hefyd, i Dafydd Jones a Gwynedd Williams am osod stondinau hen lyfrau yn y cyntedd i dynnu dŵr i ddannedd y rhai mwyaf gwangalon.

Eisoës, mae Portmeirion wedi cael ei archebu at y flwyddyn nesaf.

Taith Fws

Bydd Taith Fws i Ddyffryn Ogwen wedi bod erbyn i chi gael Y Casglwr; mae dros ugain wedi sicrhau lle ar y daith yn nwylo deheuig J. Elwyn Hughes ac mae'n argoeli i fod yn daith ddiddorol iawn.

Yr Eisteddfod

Mi fydd stondin gan y Gymdeithas eto ar faes y Brifwyl. Cofiwch alw i mewn i gael sgwrs. Mae darlith y Gymdeithas eleni yn cael ei thraddodi gan yr Athro Emeritws Hywel Teifi yn Y Stiwdio ar faes y Brifwyl ddydd Mercher, Awst 9fed gan ddechrau am 3.00pm. Dewch i gefnogi.

Tâl aelodaeth

Dyma fi eto ar fy ngheffyl. Mae nifer fawr o aelodau yn dal heb dalu eu tâl aelodaeth. Golyga hyn fod y Gymdeithas yn talu tair punt y flwyddyn iddynt am beidio talu! Mae'r Trysorydd wedi bod yn cribinio'r rhestr, a bydd nifer o aelodau heb Y Casglwr y tro hyn. Gadewch inni wybod os byddwch am gael ffurflen arall i danysgrifio.

Rhodd Gymorth

Allan o ddeuddeg cant o aelodau dim ond ychydig dros dri chant sydd wedi ymateb hyd yma. Yr unig beth sydd angen ei wneud yw llofnodi'r ffurflen a anfonwyd allan yn rhifyn llynedd Y Casglwr.

Ffair Lyfrau

Bu Ffair Lyfrau Aberystwyth yn llwyddiannus iawn eto, a diolch i Huw Walters am ei hagor yn swyddogol.

Gobeithir cynnal y Ffair Lyfrau yn y Bala, ar 23 Medi. Dowch yn llu. Gobeithir cynnal Ocsiwn y tro yma, hefyd

Anrhydeddu Aelod

Llongyfarchiadau i Mari Ellis am ennill y radd Doethur er Anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Rydym yn gwybod am waith diflino Mari yn y pethe.

DARLITH FLYNYDDOL CYMDEITHAS BOB OWEN

DYDD MERCHER, AWST 9fed

am 3 o'r gloch y prynhawn
yn

Y Stiwdio ar Faes y Brifwyl

Darlithydd:

YR ATHRO HYWEL TEIFI EDWARDS

Teitl y Ddarlith:

Cadwaladr Jones y Llofrudd
a Chymru 1877

Cadeirydd: E. WYN JAMES